



### Ardal Nefyn a'r Môr

Am ganrifoedd bu Tŵr Pen y bryn yn gyrchfan i ferched Nefyn, boed nhw'n wragedd i bysgotwyr penwaig neu i capteiniaid llongau. Yr un fyddai eu gobaith a'u pryder am weld gŵr neu gariad yn dychwelyd yn ddiogel o'r môr.

Er nad âi'r cychod allan ymhell iawn rhaid cofio mai ym misoedd y gaeaf roedd tymor pysgota penwaig. Gan fod teuluoedd Nefyn mor ddibynol ar yr helfa rhaid fyddai mentro allan ym mhob tywydd.

Byddai capteiniaid Nefyn a'u criwiau yn hwylio i bellafoedd byd a hynny ar longau wedi'u hadeiladu ar draeth Nefyn. Roedd y teuluoedd yn gyfarwydd iawn â Labrador a Bombay ac roedd rowndio'r Horn yn brofiad cyfarwydd iddynt. Cyfarwydd hefyd oedd y colledion fel y tystia'r cerrig beddi ym mynwent Nefyn.

O'i gymharu â gweddill arfordir gogleddol Llŷn, digon prin fu'r llongdrrylliadau yma, ac ers 1864 mae Bad Achub Porthdinllaen yn barod bob amser i ymateb i argyfwng.

Rhwng adeiladu llongau, pysgota, trwsio rhwydi ac allforio penwaig byddai cryn brysurdeb ar y traeth a'r trigolion yn gwneud bywoliaeth dda. Digon gwahanol fyddai hi pan gadwai'r heigiau pysgod ymhell o'r bae.

Deuai llongau gyda chargo cymysg i mewn ar lanw a dadlwytho ar y traeth pan fyddai'r môr ar drai. Roedd digon o alw am galch, glo a halen.

Câi tai moethus fel Craig y Môr a'r Dderwen eu codi gan y capteiniaid ac adeiladwyr llongau. Byddai rhai yn rhoi enwau'r llongau fel 'Ancon' ac 'Edeyrnion' ar eu tai a châi teuluoedd eraill eu hadnabod yn ôl enw'r llong.

Mae'r prysurdeb wedi cilio a'r traeth wedi tawelu bellach ond mae'r harddwch a'r rhamant yn parhau.

*Mae haul ar dywod melyn - Haf y De*

*lle mae nef dyn.*

*A nofiaist ym Mae Nefyn?*



## Traeth Nefyn a Doc Bodeilias



**Cyfarwyddiadau: Traeth Nefyn – Dilynwch y B4417 (Nefyn – Aberdaron) i gyfeiriad Morfa Nefyn. Trowch tua'r môr i Lôn y Traeth gyferbyn ag Ysgol Nefyn a dilyn Lôn Gam i lawr at lan y môr.**

**Doc Bodeilias – Does dim llwybr cyhoeddus yn arwain yma o Bistyll. Mae ar gwr dwyreiniol Traeth Nefyn a cherddwch yno o waelod y Lôn Gam.**

**Stej y Wern: Dilynwch lwybr at yr arfordir trwy giât mochyn o'r B4417 gyferbyn â'r Wern (sydd 1.25km o Nefyn i gyfeiriad Pistyll) neu gerdded ar hyd Traeth Nefyn.**

Cafodd glanfa o gerrig ei chodi ar Drwyn Bodeilias i allforio sets o chwareli Pistyll a Mynydd Nefyn.

Mae olion glanfa goed i'w gweld ger Wern, Nefyn lle câi'r sets o chwarel y Gwylwyr eu llwytho. Roedd inclên yn rhedeg i lawr tuag ati.


Gerllaw hefyd mae olion o dyn galch a gâi ei defnyddio i losgi calch.

Ychydig o enwau sydd ar fannau yn Nhraeth Nefyn. Ond allan yn y môr mae'r 'Swanings' – man i osod rhwydi penwaig.

Ym mhen gorllewinol y traeth mae tai a fu unwaith yn gymuned glan y môr. Yno trwsiai'r pysgotwyr eu rhwydi ac yno y câi'r llongau eu hadeiladu.

Yma roedd Creigiau Bach a Phorth William Edward sydd bellach wedi'u colli o dan y morglawdd.

## Porthladdoedd Llŷn



Mae'r amrywiaeth yn natur arfordir Llŷn yn rhyfeddol. Yno mae traethau a baeau eang o dywod, porthladdoedd a chilfachau creigiog hawdd mynd atynt, a gelltydd creigiog serth ac anhygyrch. Mewn manau eraill, megis Porth Neigwl mae'r môr yn cyson fwyta'r allt ac mae'r caeau yn diflannu i'r môr. Mae ardal Pwllheli yn rhan o brosiect sy'n astudio peryglon all ddod yn sgil cynhesu byd-eang wrth i lefel y môr godi a bygwth gorlifo'r dref yn barhaol.

Ni all neb fod ymhell o'r môr yn Llŷn a bu'n ddylanwad cryf ar fywyd y trigolion ar hyd y canrifoedd. Yn wir byddai'n haws dod â nwyddau yma mewn llong nag mewn trol. Y porthmyn, mae'n debyg, oedd yr unig rai welai'r angen am ffyrdd gwell. Daeth y trê'n i Bwllheli yn 1867 a rhoi cyfle i dderbyn amrywiaeth eang o nwyddau. Edwinodd y porthladdoedd fel llefydd masnachu ac amharu ar draddodiadau'r canrifoedd.

Mae dogfen wedi'i dyddio yn 1524 yn enwi'r porthladdoedd roedd yn bosibl glanio ynddynt. Dyma nhw:

*The bay of Dynlley betweene karrek y llan and the barre of carn'*

*The bay between Karrek y llam and penrhyn Dynllayn*

*The Crik of abergyerch*

*The Crik of porth yskadan*

*The Crik of porth y Gwylen*

*The Crik of porth ychen*

*The Crik of porth penllegh*

*The Crik of porth Colmon*

*The Crik of porth Veryn*

*The Crik of porth Yeagowe*





*The Crik of porthor and the Ile of Bardsey*

*The Crik of porth Muduy*

*The bay of Aberdaron*

*The bay of Nygull*

*The Roode of the two llonder of Stidwall*

*The Crik of Aber Soigh*

*The bay of Castellmarch*

*The baye of stydwalles to the geist*

*The haven of pullele in the myddes of the said baye*

Gallwn yn hawdd eu hadnabod a gwelwn fod enwau arfordirol Llŷn ganrifoedd oed.

Lle bynnag y bo'r arfordir yn greigiog mae nifer helaeth o enwau ond maent yn brin mewn baeau a thraethau tywodlyd.

Pysgotwyr a chreincwyr roddodd yr enwau a chânt eu defnyddio'n ddyddiol heddiw. Tu ôl i bob enw mae stori boed yn disgrifio craig, yn dweud pwy ddarganfu dwll cranc neu gallant gyfeirio at drigiolion a digwyddiadau, rhai bellach yn angof.

Mae Llwybr Arfordir Llŷn heddiw yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru ac mae cyfle gan bawb i werthfawrogi'r harddwch trwy grwydro o borthladd i draeth bron yn ddi-dor heb adael y lan.

## Adeiladu Llongau



*Y llongau olaf i'w hadeiladu yn Nefyn*

Rhwng 1760 a 1889 cafodd 123 o longau eu hadeiladu yn Nefyn a 57 ym Mhorthdinllaen, ond ychydig yn unig cyn canol yr 18fedG. Y cyfnodau prysuraf oedd rhwng 1840 tan 1870. Stŵps a sgwners oedd y rhan fwyaf o longau Nefyn a Phorthdinllaen a chaent eu hystyried yn hynod o gryf. O'r 137 o longau gafodd eu hadeiladu yma bu bron eu hanner yn hwylio am 30 mlynedd ac 19

am dros hanner canrif. Cariodd amryw ohonynt lechi am flynyddoedd. Byddai'n rhaid cael llongau arbennig i wneud hyn oherwydd câi'r llechi eu gwasgu'n dynn wrth ei gilydd rhag i'r cargo symud yn ystod y fordaith.

Ardal ddi-goed fu Llŷn ond roedd derw ar stâd Madrun neu fe gâi ei fewnforio o Ddyffryn Conwy a deuai coed o'r Baltig a Chanada. Prinder coed mae'n debyg olygodd na chafodd fawr o longau eu hadeiladu rhwng 1790 a 1810.

Câi John John Thomas, Fron Olau, ei ystyried yn un o'r prif adeilawyr llongau cynnar, ac yn Frenin Nefyn. Llong cario penwaig oedd y gyntaf iddo'i hadeiladu ac yna trodd ei law at longau cario llechi. Byddai'n cerdded dros yr Eifl i Gaernarfon ac yn ôl yn wythnosol i nôl cyflogau i'w weithwyr.

Adeiladodd Robert Thomas, Y Dderwen, Nefyn 13 llong rhwng 1849 ac 1866 a chyflogai dros gant o seiri. Rhyw 30 o seiri llongau oedd yn Nefyn adeg Cyfrifiad 1861, felly o blwyfi cyfagos byddai'r lleill yn dod ac mae sôn am y llwybrau penodol hyn. Roedd yma hefyd wneuthurwyr rhaffau, hwyliau, hoelion a rigiwr. Roedd yma ropog i wneud rhaffau, gefeiliau gof a lloffttydd hwyliau.

Yr adeiladwr llongau olaf yn Nefyn oedd Griffith Owen, Dyffryn, Morfa Nefyn.

Dyddiad o bwys yn yr ardal fyddai diwrnod lansio llong a thyrrai'r torfeydd i'r traeth ac i ben yr allt i weld y seremoni. Câi y llong, y perchennog a'i chriw eu bendithio gan y Person neu'r Gweinidog ac yn dilyn hyn byddai rhialtwch a dathlu.

Yn aml byddai blaenddelw o ferch ifanc neu fôr-forwyn ar fow'r llong i ychwanegu at ei harddwch. Nid cryfder a'i haddaswydd i'r môr fyddai'n denu llygad y darpar berchennog a'r capten felly!

## Capteiniaid Môr Nefyn





Mae cerrig beddi capteiniaid llongau Nefyn yn britho mynwentydd y plwyf, dros 250 ohonynt. Mae cerrig i goffâu morwyr ac wrth gwrs roedd teuluoedd nifer helaeth yn rhy dlawd i allu fforddio carreg fedd.

Byddai'r morwyr wedi cychwyn eu gyrfa yn eu harddegau cynnar ar un o longau hwyliu Nefyn o dan ofal tadol perthynas neu gyfaill i'r teulu. Yna byddai'r rhai mwyaf uchelgeisiol yn mynychu un o ysgolion morwrol yr ardal, fel ysgol David Wilson, swyddog tollau Porthdinllaen, neu Hugh Davies, y 'nailer'.

O dipyn i beth caent eu dyrchafu'n gaptan a chael eu marc neu eu sgwner-tri-mast eu hunain. Hwylent i bob rhan o'r byd gan fod oddi cartref am ddwy neu dair blynedd ar y tro. Aent â'u gwagedd a'u teuluoedd gyda hwy yn aml.

Roedd dod yn rhan o'r frawdoliaeth arbennig honno'n dipyn o anrhydedd iddynt a byddent yn ennill statws wrth godi cartref mwy na'r cyffredin yn Nefyn a dod yn berchennog siâr yn eu llongau.

Byddai'r gwagedd a chariadon yn ymweld yn aml â Thŵr Pen y Bryn gan obeithio gweld yr hwyliu'n ymddangos ar y gorwel.

Byddai anrhegion o bedwar ban y byd, a hyd yn oed barot neu fwnci yn cyrraedd Nefyn. Mae sôn y byddent yn ystod y mordeithiau maith yn gwneud modelau o longau hwyliu ac yna wedi cyrraedd gartref yn eu rasio'n gystadleuol ar Bwll Pen 'Rallt wrth drafod eu mordeithiau a'u hanturiaethau.

Mae'n hawdd ymgolli yn rhamant 'Fflat Huw Puw' a'r llongau hwyliu. Roedd bywyd morwr yn galed, y stormydd yn ffyrnig a'r amodau byw yn gyntefig. Er y câi llongau Nefyn eu hystyried ymhlith y goreuon fe suddai rhai ac ni allwn ond dychmygu gwewyr y teuluoedd. Suddodd y llong 'Margaret Parry' ar daith 'from Gaer to Londonderry' yn 1848 gan gollu Capten Henry Parry a'r holl griw. Enw ei wraig oedd ar ei long.

Bu farw Richard Jones, Capten y 'Powys Castle' ar daith i Awstralia a Capten William Davies, Craig y Môr yn RiodeJaneiro.

Ond yn y fynwent mae carreg i goffâu John Owen, Cefn Maes a foddodd – gyda chyfeirnod moel secstant arni - 'Lat 24o 17N Long 36 o 37W.

Bellach gan fod treftadaeth gyfoethog Nefyn wedi ei chofnodi gallwn ei mwynhau a'i gwerthfawrogi yma yn Amgueddfa Forwrol Llŷn.

## Mary Goldsworthy



Mary Goldsworthy

Mantais fawr i ffermwyr a masnachwyr glo yr ardal oedd gallu mynd â'u troliau ar y traeth i nôl eu llwythi. Fel hyn y câi llongau eu dadlwytho ym Mhorthdinllaen, Aberdaron, Abersoch a Llanbedrog. Byddai'n rhaid amseru'n ofalus gan sicrhau bod y llongau hwyliu yn dod i mewn ar lanw. Ar rai traethau byddai 'Carreg y Ring'– craig â dolen ar ei phen fel yr un ar draeth Aberdaron, er mwyn clymu y llong wrthi. Ar y distyll câi'r llongau eu dadlwytho a byddai'r troliu'n barod ar y traeth i gymryd y nwyddau. Yna byddai'r llong yn gadael yn hwylus ar y gorlanw.

Ym Mhorthdinllaen roedd glanfeydd a storfeydd yn y Bwlch Bridin (SH 28224084) ac mae adfeilion ierdydd glo Abersoch (SH 31522693) i'w gweld ar y cwrs golff ger Traeth Lleferin.

Ym Mhorth Ysgadan, Porth Colmon a Phorth Ferin roedd ierdydd yn y porth a deuai'r llongau i mewn yn agos atynt.

Pan ddiflannodd y dreth ar y glo yn 1813 cynyddodd y mewnfario. Deuai llongau'n gyson o'r meysydd glo a pharhaodd y 'Maggie Purvis' a'r 'Tryfan' i gludo glo hyd ddechrau'r Ail Ryfel Byd i Bothdinllaen a Phorthsgadan.

Mae olion odynnau calch yn gyffredin ar yr arfordir yn dyst o werth calch i felysu'r tir neu i baratoi mortar. Mae enwau fel Cae'r Odyn yr un mor gyffredin.

Roedd 'sôp-wast' a ddeuai yma'n falast o lwerddon yn wrtaith effeithiol a hwnnw'n boblogaidd gan y ffermwyr. Yn gymysg ag ef byddai carthion siopau Dulun a thyrchai plant yr ardal ynddo i chwilio am drysorau.

*'Llong gestog yn dadlwytho glo  
yn sych ar dywod,  
a throliu wrthi yn eu tro  
a mwy yn dyfod.'*

J Glyn Davies



## Llongdrylliadau Lleol



Cymharol ychydig o gofnodion sydd am longdrylliadau i'r gogledd o Nefyn. Efallai fod trafndiaeth brysur y môr wedi hwylio o gwmpas Caergybi ac nad oeddent am fentro trwy'r Fenai a chroesi bar twyllodrus Caernarfon.

Ond yn 1839 roedd y 'Sapho' ar daith o India'r Gorllewin i Lerpwl â llwyth o driog pan aeth i drafferthion oddi ar Pistyll. Ofnai Capten Wallace y gwaethaf a rhoddodd ddwy sofren yr un i'r criw i'w gwnio yn eu pocedi – hyn i dalu am eu claddu. Cafodd ei ofnau eu gwireddu wrth i bawb, heblaw am un hogyn ifanc, foddi. Cafodd ef ei ddarganfod y bore wedyn ar y lan mewn casgen driog wag. Cafodd saith ohonynt eu claddu mewn un bedd yn Nefyn.

Ond bu yna fad achub yn Nhrefor yn niwedd y 19eg. Roedd pryder y byddai angen bad achub yn y rhan hon o Fae Caernarfon gan fod yma gymaint o brysurdeb llongau cario sets o chwareli'r Eifl.

Cafodd gorsaf bad achub ei hagar yn Nhrefor yn 1883 ond wrth weld nad oedd angen y gwasanaeth cafodd ei chau.

Un o'r ychydig droeon y cafodd y cwch ei lansio oedd yn Rhagfyr 1883. Roedd y 'Lady Hincks' yn cario llwyth o goed o America i Lerpwl ac aeth ar y creigiau mewn môr stormus ar Drwyn y Tal. Lansiwyd y bad achub ond wedi iddo gael ei daro gan don anferth wrth y lan dymchwelodd. Trawodd mastiau'r cwch waelod y môr a thorri a chael eu golchi i'r lan. Er i'r 'Lady Hincks' ddryllio daeth y criw i'r lan yn ddiogel.

Digwyddai trychinebau lleol, i bysgotwyr mecrycll a phenwaig fel rheol. Aeth y 'Cyprian' allan yn 1893 gan fod dau bysgotwr ar goll. Ofer fu'r ymgais i'w hachub a daeth eu cyrff i'r lan yn Llanddwyn.

Ganrif yn gynharach collwyd pysgotwyr lleol ac mae cerdd gan Robert ap Gwilym Ddu i goffáu'r wyth.

## Llongdrylliadau

Mae'n gwbl naturiol fod penrhyn Llŷn wrth ymestyn allan i fôr prysur lwerddon wedi bod yn dipyn o gur pen i berchnogion a chaptiniaid llongau dros y blynyddoedd. Mae arfordir gogledd Llŷn yn greigiog a pheryglus ac anodd cyrraedd rhai o'r baeau i gysgodi oherwydd eu gelltydd meddal – mae Porthdinllaen yn agored iawn i bob gwynt ond o'r gogledd-ddwyrain.

Gyda chynnydd mewn masnach byd-eang a phrysurdeb porthladd Lerpwl o ganlyniad prysurodd y darn hwn o fôr.

Dywed adroddiad yn 1863 fod cymaint â 206 o longau wedi'u dryllio mewn chwarter canrif yn ardal Porthdinllaen.

Roedd gwir angen goleudy felly ar Ynys Enlli a daeth yno yn 1821.

Prysueroedd gogledd Bae Ceredigion hefyd pan agorodd y chwareli llechi yn ardal Ffestiniog. Hwyliai llongau'n gyson o Borthmadog ond doedd dim modd iddynt weld golau Enlli. O ganlyniad cafodd goleudy ei godi ar Ynys Tudwal yn 1877.

Peryglon eraill ym Mae Ceredigion yw Sarn Badrig a'i ddŵr bas, a bu Porth Neigwl yn angau i sawl llong. Ond pe codai storm doedd yna unman gwell na'r Roads – yr hafan gysgodol rhwng Ynysoedd Tudwal a'r tir mawr. Ond er hyn parhaodd llongau i fynd i drafferthion hyd yn oed yma a bu'n rhaid ymateb.

Daeth gwasanaethau bad achub i Benrhyn Du, Abersoch yn 1844, Porthdinllaen ym 1864 a Phwllheli yn 1889. Roedd galw am orsaf yn Nhrefor yn ogystal ac yn niwedd y 19edG gyda chynnydd ym masnach allforio sets o chwareli'r Eifl daeth un i Drefor. Ond ni fu yno'n hir.





## Smyglo



Mae'n debyg fod trigolion Nefyn yr un mor euog o drin nwyddau anghyfreithlon ag unrhyw un arall ond does dim llawer o sôn am smyglo rhwng Clynnog a Nefyn. Mae'n debyg bod yr arfordir agored a phrinder cilfachau yn eu cadw draw. Roedd pethau'n wahanol ym Mhorthdinllaen gan fod yno brysurdeb wrth fewnforio ac allforio. Gallai trigolion Nefyn, oherwydd ei fod mor agos, ddefnyddio'r traeth hwnnw.

Prynu nwyddau'n rhad trwy osgoi talu treth yw'r rheswm dros smyglo. Roedd ar ei gryfaf yn y 18fed a'r 19fedG pan oedd Coron Lloegr a'i llynges yn ymestyn ffiniau'r Ymerodraeth Brydeinig. Byddai'n codi cyllid trwy roddi trethi afresymol ar nwyddau: ar sbeisys, gwirodydd a baco'r cyfoethog ac ar halen, sebon a chanhwyllau'r teuluoedd cyffredin.

Roedd halen yn gwbl angenrheidiol cyn dyddiau'r rhewgell i halltu cigoedd, menyng a phenwaig. Yn nechrau'r 19egG, costiai halen geiniog y pwys yn lwerddon ond yma roedd tair ceiniog o dreth yn ychwanegol. Câi ei smyglo i Llyn a'i werthu yn ddi-dreth am ddwy geiniog.

Swyddogion y Cyllid ('seismyn') fyddai'n casglu'r trethi ym mhorthladdoedd Porthdinllaen a Phwllheli. Rhwng y porthladdoedd hyn marchogai swyddogion yn chwilio am unrhyw arwydd o smyglo. Mae enghreifftiau o wrthdaro rhwng swyddogion a'r smyglwyr, a byddai'r smyglwyr yn aml iawn yn derbyn cymorth gan y gymuned leol. Câi'r euog eu cosbi'n llym mewn llysoedd barn.


Dibynnai llwyddiant smyglo ar sicrhau cydweithrediad rhwng y morwyr, a phobl ar y lan yn Llŷn. Câi'r nwyddau eu cario mewn llongau mawrion o dramor a'u trosglwyddo gan amlaf i stordai yn lwerddon ac Ynys Manaw a'u casglu oddi yno mewn llongau llai. Byddai'r nwyddau'n cyrraedd Llŷn mewn llongau hawdd i'w hwylio i mewn ac allan o gilfachau neu gallent gyrraedd yn guddiedig mewn cargo cyfreithlon ar longau

masnach. Gwyddai'r gwŷr ar y lan pryd i ddisgwyl llong a llwyddai'r capten i anfon neges atynt efo lamp arbennig pan oedd o fewn cyrraedd.

Byddai paratoadau manwl ar gyfer glanio, cuddio'r nwyddau, a'u dosbarthu.

Yn ôl y sôn roedd mwy o smyglo yn Llŷn nag yn unman arall ac mae hanesion am smyglo ym mhob porthladd a chilfach yn Llŷn.

## Penwaig - Biff Nefyn



*'Prynwch benwaig Nefyn*

*Ni fu eu bath am dorri newyn.*

*Prynwch benwaig Nefyn –*

*Newydd ddod o'r môr!*

Ar bob arfbais a bathodyn a berthyn i Nefyn mae yna dri phennog – y pysgodyn fu'n amlwg iawn yn hanes Nefyn ar hyd y canrifoedd.

Tra byddent yn cael helpa dda o benwaig roedd economi Nefyn yn ffynnu a doedd neb yn llwgu.

Roedd digonedd o benwaig ar gael rhwng Porth Ysgadan ac Enlli yn ôl Thomas Pennant (1771), a phan gafodd cynllun yn 1770 ei wneud am ffordd dyrpeg o Lundain i Llyn roedd dadlau mai y pysgota penwaig yma yw'r pwysicaf yng Nghymru. Roedd y diwydiant yn ennill miloedd o bunnau bob blwyddyn i borthladd Nefyn, ac i bentrefi eraill ar y glannau gan roi gwaith i lawer.

Ar ddechrau'r 19yddG roedd tua 300 o bobl Nefyn yn bysgotwyr yn trin y cychod a pharatoi'r rhwydi. Ar ben hyn câi llawer eu cyflogi i halltu, ac i baratoi penwaig cochion a rhai sych a nifer wedyn yn eu gwerthu a'u hallforio. Roeddent yn bysgotwyr profiadol a dysgai un genhedlaeth oddi wrth y llall am arwyddion tywydd, a chyfrinachau'r môr a'r llanw.

Roedd y stoc o benwaig yn anwadal iawn a gan fod y teuluoedd yn dibynnu gymaint arnynt am eu cynhaliaeth achosai'r prinder ddiodeffaint garw.



Meddai Goronwy Owen yng nghanol y 18edG:

'Yn y blynyddoedd tostion hyny, pan oedd ymborth cyn brinned a chyn ddruted, hyd yn oed yn gorfod ar lawer werthu eu gwelyau o danynt i brynu lluniaeth ... yn Plas-yng-Ngheidio y câi y rhan fwyaf o dlodion Llŷn eu lluniaeth.'

Bu'n rhaid mewnfario penwaig o Ynys Manaw yn 1831 ond ar flwyddyn arall roedd gormodedd a chaent eu taenu ar y tir fel gwrtaith. Tymhorau llwm ddilynodd wedi hynny a'r gred yn lleol oedd fod y Brenin Mawr yn dial am y gwastraff.

Gydol yr 20G roedd dirywiad yn nifer y penwaig gâi eu dal ac erbyn heddiw maent yn brin iawn. Ond mae sôn gan Brian Owen amdano'n rhan o griw gafodd helpa anferth o benwaig ar nos Calan 1951 mewn rhwydi ar y traeth ac yn y 'Swanings'.

### Pysgota Penwaig



Amrywiai'r tymor pysgota, weithiau o Orffennaf hyd Hydref, dro arall rhwng Medi a Thachwedd neu ymlaen i Ionawr hyd yn oed. Dechreuai rhai bysgota pan fyddai dŵr newydd – adeg lleud newydd yn Awst, ac eraill cyn Diolchgarwch – trydydd dydd Llun yn Hydref.

Cwynodd sgweiar Cefnamwlch fod y ffermwr yn esgeuluso'r tir ar draul pysgota ond dadleuai Hyde-Hall yn 1811 na welsai ef unrhyw dystiolaeth o hynny. Doedd y ddau dymor ddim yn gwrthdaro.

Pan fyddai helpa dda o benwaig roedd economi Nefyn yn ffynnu a doedd neb yn llwgu.

Gyda'r nos âi'r cychod allan er mwyn gosod y rhwydi cyn iddi dywyllu.

Roedd pob ardal yn pysgota o fewn ei ffiniau a chadw yn gaeth at hynny.

Ar leud newydd deuai'r penwaig yn nes i'r lan a châi

rhwydi eu gosod yn Camlas Nefyn. Yng nghyffiniau Trwyn Nefyn, yn y Swanings câi un pen yn unig ei angori a byddai'r pen arall yn rhydd i symud efo'r llanw. Byddai hyn hefyd yn arbed damwain allai ddigwydd pan nofiai pysgod mawr neu forloi yn eu herbyn wrth iddynt ymlid y penwaig.

Roedd y pysgotwyr yn adnabod yr arwyddion pan fyddai'r penwaig wedi cyrraedd. Byddai'r llambedyddion i'w gweld yn hela neu'r gwyllanod yn plymio. Byddai olew ar y dŵr neu lewyrch môr o dan y dŵr. Mae'r penwaig a'r heulforgi (*Cetorhinus maximus*) yn bwyta plancton a deuai yntau i fae Nefyn.

Câi'r rhwydi eu harchwilio cyn iddi wawrio, tynnu'r pysgod ohonynt a'u hailosod wedyn. Gallai'r rhwyd fod yn y môr am 5 – 6 diwrnod ond rhaid fyddai eu harchwilio'n ddyddiol.

### Cychod a Rhwydi Penwaig



Roedd cychod dau flaen yn boblogaidd yn Nefyn, tua (5m) 18 troedfedd o hyd. Rhaid fyddai cael rhai llai yng nghyffiniau Aberdaron mewn môr garwach.

Rhwydi cymharol fân, 25mm (1 fodfedd) gâi eu defnyddio ac roeddent yn 50m (20 gwrhyd) o hyd ac yn 2m i 2.5m o led. Wedi'u gosod byddent fel wal yn y dŵr gyda chyrch ar hyd y tant uchaf i'w cadw ar wyneb y môr. Cerrig (poitshis) gâi eu rhoi ar hyd y tant gwaelod i'w dal i lawr. Caent eu gosod fesul gwrhyd, 2m neu cymaint ag y gallai dyn ymestyn ei freichiau ar led. Roeddent yn gerrig wedi'u trin, a hollt o'u cwmpas ar gyfer y llinyn fyddai'n eu clymu wrth y rhwyd. Gwellt neu wlân gâi ei ddefnyddio fel y gallai dorri'n rhydd mewn môr stormus.

Câi angoron eu defnyddio i gadw'r rhwydi rhag symud gormod efo'r llanw. Câi'r angor cyntaf ei daflu o'r cwch gan fynd â'r rhwyd efo fo. Drifftiai'r cwch ar hyd



y rhwyd ac yna câi'r ail angor ei daflu ynghyd â bongi (fflôt lledr) i ddangos lleoliad y rhwyd dros yr ochr. Câi dau fwi, bwi cledda eu clymu â rhaffau 4 gwrhyd o hyd wrth bennau'r rhwyd.

### Gwerthu ac Allforio



Yn ôl pob sôn roedd penwaig Nefyn yn arbennig iawn

'Penwaig! Penwaig!

Cefna fel ffarmwrs,

Bolia fel tafarnwrs!'

Câi Penwaig Nefyn farchnad dda a'r prisiau'n uchel, meddai'r *Cambrian Mirror* (1848) ond roedd Penwaig Cricieth ym Mae Ceredigion yn bysgod llawer llai.

Yn aml byddai croeswrs, y prynwyr a'r gwerthwyr penwaig yn barod ar y lan am y ddalfa ac yn cadw at yr un cwch bob amser ond yn talu'r pysgotwyr ar ôl eu gwerthu.

Câi'r penwaig eu cyfrif fesul tri, sef *mwrw* (dau bysgodyn yn un llaw ac un yn y llall). Roedd 40 *mwrw* mewn *cant*, sef 120 pennog a 5 *cant* pennog yn 1 *mwys*, sef 620 pennog.

Byddai'r tâl am y penwaig yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng criw'r cwch a byddai un siâr i'r cwch. Yn 1910 roedd tua 40 cwch yn Nefyn a thri neu bedwar pysgotwr ar bob cwch. Perchennog y cwch fel arfer fyddai'n llywio a'r criw yn rhwyfo.

Nefyn oedd y brif ganolfan bysgota yn y 18fedG a'r 19egG. Mae sôn am allforio penwaig yn 1714 ar y

'Speedwell'. Dywed Lewis Morris i bum mil o gasgenni o benwaig hallt gael eu hallforio yn 1747. 'Roedd pump neu chwech o longau bychain wedi cyrraedd Corc â llwythi o benwaig Nefyn ddechrau mis Chwefror 1762 i'w dadlwytho i longau'r brenin, pan oeddent ar fin cychwyn am Blanhigfeydd ei Fawrhydi, yn ôl David Thomas. Arhosodd y llongau dridiau neu bedwar i drosglwyddo'r pysgod ond cawsant dywydd enbyd ar y daith yn ôl i Gymru.'

Ymhlith y llu o nwyddau gâi eu mewnfario i Nefyn roedd casgenni gweigion i ddal penwaig a halen i halltu.

### Halltu, Mygu a Sychu

#### Halltu

Yn Nefyn, Porthdinllaen a Llanbedrog roedd strysa, storfeydd halen, ac yn Stryd Plas Nefyn mae 'Tŷ Halen'. Câi'r halen ei fewnfario o Iwerddon a hynny am £1 y dunnell ond byddai treth o £12 ar ben hynny. Bu cryn dipyn o smyglo halen yn yr ardal a byddai cosbi.

Gan fod halen mor ddrud weithiau trosglwyddai cychod Nefyn eu penwaig i longau o Iwerddon allan yn môr ac weithiau byddent yn eu halltu ar y llongau.

Câi'r lleill eu halltu yn y cartrefi ac ar y ffermydd. Un dull oedd eu piclo trwy ddefnyddio dŵr hallt (cymysgedd o ddŵr a halen). Rhoi taten yn y gymysgedd oedd y prawf i weld oedd y dŵr yn ddigon hallt ac os codai honno i'r wyneb byddai'n ddigon hallt.

Ar gyfer eu halltu'n fwy parhaol caent eu rhoi mewn casgenni a haenau o halen rhyngddynt a'u troi bob hyn a hyn i sicrhau bod yr halen yn mynd i mewn iddynt. Yna wedi'u sychu'n lân, caent eu rhoi yn ôl yn y gasgen gyda digon o halen a'u gadael felly.

Chwe cheiniog oedd y tâl am halltu casgenaid o benwaig.

#### Penwaig Cochion

Câi'r penwaig cochion eu paratoi trwy biclo'r pysgod heb eu hagar am bump neu chwe diwrnod ac yna'u golchi a'u hongian yn y tŷ mwg am bum i chwe diwrnod. Yn Nefyn caent eu piclo eto a'u mygu am gyfnod pellach er mwyn iddynt gadw yn hwy.

#### Penwaig Sychion

Yn Nefyn, câi penwaig sychion eu paratoi hefyd trwy daenu rhedyn sych ar lawr ar ddiwrnod heulog a rhoi'r penwaig arno. Yna eu pacio hefo halen bras mewn cewyll gwial, a 100 i 150 ym mhob cawell. Mynd â nhw wedyn mewn llong i Gaernarfon a manau eraill i'w gwerthu.





## Tŵr Pen y Bryn



**Cyfarwyddiadau: Dilynwch y B4417 (Nefyn – Morfa Nefyn) am ryw 150m o Groes Nefyn ac fe'i gwelwch ar y dde.**

Yn wreiddiol tŵr pren oedd yma ond cafodd y tŵr presennol ei godi tua 1846. Dyna pryd yr oedd diwydiant adeiladu llongau a physgota penwaig yn ei fri yn Nefyn. Byddai pobl Nefyn, yn arbennig y gwagedd, yn dod i ben y tŵr gan obeithio gweld llongau gwŷr a thadau yn dychwelyd adref ar ôl hwylio i bob cwr o'r byd. Byddent yn aros am wythnosau i gael eu hanrhegion dieithr o wledydd tramor ond yn bwysicach i groesawu eu hanwyliaid adref yn ddiogel.

Roedd Nefyn yn dreflan bwysig yn y cyfnod Normanaidd a chafodd castell mwt a beili ei godi ar y safle hwn. Yn 1095 glaniodd Gruffydd ap Cynan yma i geisio casglu gwŷr ar gyfer ymosod ar Gastell Aberlleiniog ar lannau'r Fenai.

Yn ddiweddar cafodd Tŵr Pen y Bryn ei adfer gan Cadw. Yn ystod y gwaith hwnnw cafodd ystafell ei darganfod yng ngwaelod y tŵr a gâi ei defnyddio fel cell sobri ar gyfer meddwyn.



### Dilynwch y Stori

Darganfyddwch fwy am orffennol diwydiannol yr ardal drwy ymweld â Phorthdinllaen - Unwaith yn leoliad i un o'r porthladdoedd prysuraf yn Llŷn bellach yn bentref sydd o fewn perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.